LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

Mae Llantarnam Grange yn chwilio am artist/gwneuthurwr i weithio gyda ni a Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru dros y 18 mis nesaf.

Trwy ymhel â'r casgliadau, arddangosiadau, arddangosfeydd a'r cymunedau ar draws y ddau safle, bydd yr artist yn datblygu prosiect newydd a fydd yn ceisio herio a tharfu ar yr etifeddiaeth wladychol ac/neu ymhel â gwrth-hiliaeth.

Beth yw Safbwynt(iau)?

Mae Safbwynt(iau) yn broject newydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru sy'n ceisio creu newid sylweddol yn y ffordd mae'r sector treftadaeth a chelfyddydau gweledol yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig a diwylliannol ein cymdeithas.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, bydd pobl greadigol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol yn gweithio gydag amgueddfeydd a sefydliadau er mwyn rhoi llais i straeon newydd, sbarduno ymatebion artistig, a chreu newid.

Mae'r rhaglen hefyd yn ceisio herio ffyrdd presennol o feddwl drwy edrych ar y sector treftadaeth a chelfyddydau gweledol o safbwynt gwrth-hiliol a dad-drefedigaethol, a hynny gyda chymunedau.

Parhad…

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

Pwy yw'r Partneriaid?

Llantarnam Grange, Cwmbrân

Llantarnam Grange yw canolfan Cwmbrân ar gyfer Celf a Chrefft. Rydym yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymuned, gan ddod â phobl at ei gilydd, cefnogi artistiaid a gwneuthurwyr, gwella iechyd a lles pobl, a hybu creadigrwydd i bawb.

Mae Llantarnam Grange yn fan cyfeillgar lle mae croeso i bawb gael eu hysbrydoli, eu cynnwys, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Rydym yn cefnogi amrywiaeth eang o gelfyddydau gweledol, gyda phwyslais cryf ar grefft, trwy arddangosfeydd a sioeau rheolaidd sydd am ddim i'r cyhoedd. Mae ein Horiel Bwrdd Posteri yn mynd â chelf y tu allan i waliau'r oriel, gan ddileu rhwystrau ac ysbrydoli creadigrwydd yn y gymuned. Mae ein rhaglen ddysgu yn cynnig lle i bawb, yn cynnwys pobl ifanc, ysgolion, colegau, pobl hŷn a grwpiau cymunedol.

Ein nod yw cyflwyno pŵer trawsnewidiol y celfyddydau i'r gynulleidfa ehangaf posibl, ac rydym wedi aros yn rheng flaen y gymuned artistig a chymdeithasol yn Ne-ddwyrain Cymru, gan atgyfnerthu ein safle fel adnodd gwerthfawr yn ein cymuned leol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon

Mae Big Pit yn amgueddfa ryngweithiol uchel ei pharch, sy'n arddangos treftadaeth gyfoethog diwydiant glo Cymru. Wedi'i lleoli yn Nhirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, sy'n Safle Treftadaeth Byd UNESCO, gall ymwelwyr brofi synau, aroglau ac awyrgylch pwll glo go iawn.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

Mae’r arddangosfeydd rhyngweithiol o fri a’r daith danddaearol fyd-enwog yn galluogi ymwelwyr i ddilyn ôl traed y glowyr. Dan arweiniad glöwr, gall ymwelwyr ddisgyn 300 troedfedd i grombil y pwll i weld sut fywyd oedd gan weithwyr y talcenni glo. Ar yr wyneb, gall ymwelwyr fwynhau taith amlgyfrwng trwy bwll glo modern gyda glöwr rhithwir, arddangosfeydd yn y Baddondai Pen Pwll, ac adeiladau hanesyddol y lofa. Mae Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru yn rhan o deulu Amgueddfa Cymru.

Cyfle

Bydd disgwyl i chi:

- Weithio rhwng Llantarnam Grange a Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru am gyfanswm o 100 o ddiwrnodau.
- Defnyddio'r casgliadau, arddangosiadau a'r arddangosfeydd fel catalyddion ar gyfer eich ymchwil a'ch dysgu ehangach.
- Gweithredu fel cyfrwng newid a sicrhau tegwch yn y sectorau treftadaeth a'r celfyddydau.
- Arwain / cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer amrediad o grwpiau oedran a galluoedd.
- Helpu i ddatblygu prosesau a ffyrdd newydd o weithio sy'n ddemocrataidd ac yn groestoriadol.
- Rhannu’r gwaith sydd ar y gweill a'r canlyniadau terfynol ar draws y ddau safle ac ar-lein.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David’s Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

- Cyfrannu'n weithredol at y broses o gynllunio a gwerthuso'r prosiect*

Disgwylir y bydd y prosiect a ddatblygir yn:

- Dadwladychu mannau cyhoeddus.
- Herio mudiadau / sefydliadau.
- Ymhel â hanes lleol a'r adeiladau ar y ddau safle.
- Ystyried a herio sut mae gwladychu, caethwasiaeth ac Ymerodraeth yn cael eu cyflwyno yn y casgliadau, arddangosiadau a'r arddangosfeydd.

** Disgwylir i chi gyfrannu at gynllunio a gwerthuso'r broses drwy gydol y rhaglen.*

I asesu effaith y rhaglen Safbwynt(iau) defnyddir y chwe bloc adeiladu canlynol yn y broses werthuso:

Mannau - Dadwladychu mannau cyhoeddus, fel amgueddfa ac orielau.

Cymuned - Hyrwyddo ymgysylltu dyfnach ac ehangach â'r gymuned.

Dysgu - Defnyddio casgliadau, arddangosiadau ac arddangosfeydd fel catalyddion ar gyfer dysgu, yn enwedig mewn perthynas â gwladychu, caethwasiaeth ac Ymerodraeth.

Datblygu Ymarferwyr Creadigol - Hyrwyddo datblygiad Gweithwyr Proffesiynol Creadigol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

Datblygu Sector - Datblygu sefydliadau celfyddydau gweledol a sector dreftadaeth yng Nghymru sy'n weithredol wrth-hiliol ac y fwy croestoriadol.

Democrateiddio a Dadwladychu - Datblygu prosesau a ffyrdd newydd o weithio sy'n ddemocrataidd ac yn groestoriadol gan weithio tuag at sector celfyddydau a threftadaeth sy'n wrth-hiliol.

Cymhwysedd

Mae'r cyfle hwn yn agored i ymgeiswyr sydd:

- Yn byw yn unrhyw ran o Gymru.
- Yn ddiwylliannol ac yn ethnig amrywiol**
- Yn defnyddio crefft yn eu hymarfer – gallai hyn fod yn decstilau, cerameg, gwaith coed, gwaith metel neu arall (rhowch fanylion). Rydym yn agored i geisiadau gan wneuthurwyr sydd hefyd yn ymgorffori gwaith ysgrifenedig neu lafar, cyfryngau digidol neu eraill yn eu gwaith.
- Yn ymgysylltu'n gymdeithasol ac yn wleidyddol ac a all weithio gydag Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru a Llantarnam Grange i herio a tharfu ar etifeddiaeth
- wladychol ac/neu ymhel â gwrth-hiliaeth trwy arddangosfeydd, arddangosiadau, digwyddiadau neu berfformiad.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

- Yn gallu gweithio gydag ystod o oedrannau i ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned***
- Yn cefnogi gwerthoedd Llantarnam Grange (Llunio Lleoedd, Etifeddiaeth, Anelu'n Uchel, Creadigrwydd, Tegwch)

**Rydym yn diffinio 'diwylliannol ac ethnig amrywiol' fel: Unrhyw un o'r diaspora Affricanaidd, Asiaidd, Caribïaidd, Sbaenaidd, Latino, Dwyrain Ewropeaidd neu o'r Dwyrain Canol yng Nghymru

Unrhyw un sy'n ei adnabod ei hun fel aelod o grŵp ethnig nad yw'n hollol Wyn

Unrhyw un o Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

***Cefnogir y gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned gan Lantarnam Grange, gweler isod.

Beth sydd ar gynnig?

Byddwch yn derbyn:

- Ffi o **£25,000** am 100 o ddiwrnodau gwaith, gan orffen erbyn Mawrth 2025.
- Cyllideb deithio, os oes angen.
- Y cyfle i rannu datblygiad eich gwaith yn gyhoeddus yn ein Man Celf yn y Gymuned, Oriel Bwrdd Posteri ac ar-lein.
- Cyfleoedd hyfforddi a chymorth gan Lantarnam Grange (manylion isod.)

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

- Bydd cyfle hefyd i rannu'r canlyniadau terfynol mewn digwyddiad neu arddangosfa fawr, a allai gael ei chynnal yn Oriel 1, Oriel 2, neu yn ein Horiel Bwrdd Posteri.

Bydd Llantarnam Grange yn darparu gofal a chymorth i'r artist/gwneuthurwr ddewiswyd trwy:

- Aelod penodedig o'r staff a fydd yn brif berson cyswllt / arweinydd bugeiliol
- Yr Ymddiriedolwr Naseem Syed fydd yr arweinydd bugeiliol gwirfoddol
- Cymorth ymarferol, mentora a hyfforddiant i helpu i gyflawni gweithgareddau ymgysylltu creadigol.
- Cyflwyniad graddol i Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru gyda staff Llantarnam Grange.
- Gwiriadau llesiant gyda'r arweinydd bugeiliol.
- Cyfle i fynychu sesiynau crefftau llesiant i staff a gweithwyr llawrydd.
- Mynediad at staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl.
- Cyfleoedd rhwydweithio, yn cynnwys y cyfle i gymryd rhan yn ein sesiynau Cwrdd â'r Artistiaid rheolaidd.
- Cyfleoedd hyfforddi, yn cynnwys cyfle i fynychu Rhaglen Trawsnewid Creadigol People Make It Work.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

Dyddiadau Allweddol

- Dyddiad Cau Ar Gyfer Ceisiadau: Dydd Sul 18 Mehefin 5pm
- Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 26 Mehefin
- Ein nod yw rhoi gwybod i ymgeiswyr erbyn 7 Gorffennaf
- Digwyddiad Rhwydweithio'r Amgueddfa Genedlaethol gyda holl bartneriaid Safbwynt(iau) ar 12 Gorffennaf yng Nghanolfan Chapter, Caerdydd
- Cyfarfod Ar-lein yr Amgueddfa Genedlaethol i'r holl artistiaid Safbwynt(iau) ar 19 Gorffennaf (hanner diwrnod)
- Diwedd y prosiect: Mawrth 2025

Os bydd rhaid i'r dyddiadau hyn newid, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr cyn gynted â phosibl.

Sut gallaf wneud cais?

Llenwch ein ffurflen gais ar-lein **yma**.
https://form.jotform.com/231353792256358

Mae hyn yn cynnwys

- 200 o eiriau ar eich ymarfer
- 200 o eiriau ar pam rydych chi eisiau cymryd rhan yn y rhaglen Safbwynt(iau)
- 200 o eiriau ar pam rydych chi eisiau gweithio gyda Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru a Llantarnam Grange

Llantarnam Grange
Ysgol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

- 400 o eiriau ar eich profiad o weithio ar brosiectau gwrth-hiliol/dadwladychu a chydymweithio â grwpiau cymunedol/unigolion
- 150 o eiriau am unrhyw gymorth penodol fydd ei angen arnoch yn y prosiect hwn
- Hyd at 5 delwedd, neu ddolennau i'ch gwaith.

Maint mwyaf y ffeiliau i'w lanlwytho yw 10MB.

Byddwch cystal â chyflwyno eich cais erbyn **dydd Sul 18 Mehefin 2023.**

Os hoffech ymgeisio mewn fformat gwahanol, fel fideo cysylltwch â ni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Pespectives a'r broses, neu os hoffech drafod eich cais neu syniadau, cysylltwch â'n Swyddog Arddangosfeydd Savanna Dumelow ar: **savanna.dumelow@llantarnamgrange.com**

Neu, gallwch ein ffonio ni ar **01633 483321**

Mae Savanna yn gweithio'n rhan amser (Dydd Llun, Dydd Iau, Dydd Mercher, 9yb-4yp)

Rydym yn deall y gall dyddiadau cau fod yn drafferthus ac yn anodd eu cyflawni am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth. Os teimlwch y byddech yn hoffi ymgeisio, ond am ba reswm bynnag, ni fyddwch yn gallu cwrdd â'r terfyn amser, cysylltwch

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

Safbwynt(iau)

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 18 Mehefin 2023

â ni a byddai'n dda gennym drafod cynllun yn anffurfiol ac yn gyfrinachol.

Pob lwc!

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241